

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Parkway Cosmetic and Dental Spa (Practis Deintyddol Preifat)

Dyddiad arolygu: 25 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 26 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	12
5.	Y Camau Nesaf.....	14
6.	Methodoleg	15
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Gwnaeth AGIC gynnal arolygiad o Parkway Cosmetic and Dental Spa yn Lamberts Road, SA1 Y Glannau, Abertawe, SA1 8EL, ar 25 Gorffennaf 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y practis deintyddol preifat yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Parkway Cosmetic and Dental Spa (practis deintyddol preifat) yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau a ddarperir o fewn Clinig Preifat Parkway. Mae'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig ac mae wedi'i leoli yn Abertawe. Mae ysbyty deintyddol annibynnol wedi'i leoli yn yr un adeilad. At ddibenion yr arolygiad hwn, dim ond y gwasanaethau a ddarperir yn Parkway Cosmetic and Dental Spa a oedd yn cael eu hystyried.

Mae tîm y practis yn cynnwys deg deintydd, un hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol, rheolwr clinig, dirprwy reolwr, derbynyddion, a staff gweinyddol. Mae staff yn gweithio yn y practis deintyddol preifat a'r ysbyty deintyddol annibynnol ill dau.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol preifat.

3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Parkway Cosmetic and Dental Spa yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a ddarperir.
- Roedd safon y cyfleusterau clinigol yn uchel iawn ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus.
- Roedd y staff yn dangos proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol.
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod offer pelydr-X ac offer dadheintio'n cael eu defnyddio â'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion.
- Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch staff a thîm y practis.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Dylai'r practis wneud trefniadau i gadw copïau o dystysgrifau hyfforddi ar gyfer yr holl staff clinigol, i ddangos eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant a argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- Rhaid i ddeintyddion sicrhau bod ganddynt dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a bod dystiolaeth o'r rhain ar gael i AGIC ei harchwilio.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom fod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cafodd cyfanswm o 27 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd atom.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd a dychwelodd holiadur eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y practis deintyddol.

Gofal gydag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, parchus a phroffesiynol.

Roedd yr holiaduron cleifion a gwblhawyd yn dangos bod cleifion yn fodlon ar lefel y gofal a thriniaeth a ddarperir ar eu cyfer. Dywedodd pob claf a gwblhaodd a dychwelodd holiaduron wrthym eu bod wedi cael croeso cynnes gan staff y practis. Roedd rhai cleifion hefyd wedi ychwanegu eu sylwadau cadarnhaol eu hunain ynglŷn â'r gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn, ac agwedd a dull gweithredu tîm y practis.

Roedd y practis yn darparu triniaethau deintyddol preifat yn unig. Roedd gwybodaeth ynglŷn â'r prisiau ar gael yn y dderbynfa. Golygai hyn fod gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Lleolir ffeil gwybodaeth yn y man aros. Roedd hon yn darparu gwybodaeth am y practis.

Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a roddodd sylwadau yn holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi oedi o ran cael eu gweld gan eu deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y rhai a oedd wedi profi oediadau mai bach iawn oeddent, ac nid oeddent wedi peri problem. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn cyswllt ar gael i gleifion ei ffonio pe bai angen triniaeth ddeintyddol ar frys arnynt. Roedd y practis wedi gwneud y rhif hwn ar gael i gleifion mewn nifer o ffyrdd. Roedd y rhif wedi'i arddangos ar bwys desg y dderbynfa, a dywedwyd wrthym ei fod hefyd wedi'i gynnwys yn neges peiriant ateb y practis. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a ddychwelodd holiadur yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau. Roedd un claf a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth y tu allan i oriau'n gadarnhaol iawn ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Cadw'n iach

Gwelsom fod gwybodaeth am hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion yn y practis er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am hylendid ac iechyd eu ceg eu hunain.

Yn ddieithriad, dywedodd cleifion a oedd wedi cwblhau a dychwelyd holiaduron eu bod yn credu eu bod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth ddeintyddol.

Gofal unigol

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad at ei wasanaethau. Mae'r practis yn rhannu gwybodaeth â chleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn) ac roedd system ar waith i gleifion roi adborth.

Roedd mynediad i brif fynedfa adeilad y practis yn wastad, a oedd yn caniatáu mynediad hawdd ar gyfer pobl sy'n defnyddio cymhorthion cerdded neu gadeiriau olwyn. Roedd y practis wedi'i leoli ar ail lawr yr adeilad ac roedd lifft i bobl ar gael ar gyfer pobl nad oeddent yn gallu defnyddio grisiau.

Dywedodd staff uwch wrthym fod arolwg boddhad cleifion yn cael ei gynnal bob blwyddyn. Gwelsom fod bocs awgrymiadau wedi'i leoli yn yr ystafell aros, er mwyn i gleifion roi awgrymiadau unigol yn barhaus ynglŷn â sut y gellid gwella'r gwasanaeth.

Gwelsom fod y practis wedi llunio gweithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos ar bwys y dderbynfa. Roedd y weithdrefn hefyd ar gael yn y ffeil gwybodaeth i gleifion wedi'i lleoli yn yr ystafell aros. Nid oedd y weithdrefn gwyno yn cynnwys manylion cyswllt y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol. Gwnaethom hysbysu staff uwch am y mater hwn, a gwnaethant gytuno i ychwanegu'r manylion hyn at y weithdrefn. Roedd angen cynnwys y weithdrefn gwyno ar wefan y practis hefyd, ynghyd â manylion cyswllt y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i wefan y practis gynnwys gweithdrefn gwyno'r practis a manylion cyswllt y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

Nododd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd a dychwelodd holiaduron (15 o gleifion) eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol.

Roedd y practis wedi cadw cofnod o gwynion. Roedd y rhain yn dangos bod y practis yn gwneud ymdrechion i ymateb i gwynion mewn modd effeithiol a phrydlon.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelsom fod y gwasanaeth yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd hon yn cael ei chynnal mewn ystafell ddadheintio ddynodedig, er mwyn lleihau croes-heintio.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r offer dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.

Roedd cofnodion cleifion wedi cael eu cynnal yn dda ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

Gofal diogel

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd adeilad y practis i'w weld wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o gwmpas y practis, fe welsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol fannau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd asesiadau risg ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau a oedd yn nodi peryglon posibl a chamau i leihau risg. Roedd angen i'r rhain gynnwys manylion lleol er mwyn eu gwneud yn fwy penodol i'r practis. Cytunodd y tîm rheoli i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i asesiadau risg ysgrifenedig gynnwys manylion lleol er mwyn eu gwneud yn fwy penodol i'r practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchid gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio mewn cynhwysyddion cloadwy wrth iddo aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractio. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau gyda'r cyngor sir lleol.

Roedd ystafell ddadheintio ar wahân wedi'i gosod a oedd yn bodloni'r egwyddorion yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).¹

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio. Roedd tystysgrifau arolygu ar gael ar gyfer y cyfarpar awtoclaf² i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod llyfrau cofnodion wedi cael eu cynnal ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05

Roedd y staff yn dangos proses drwyadl ar gyfer dadheintio, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod staff nyrsio wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio. Roedd y dyddiadau ar gyfer defnyddio neu ailbrosesu offerynnau (eu glanhau a'u sterileiddio) wedi cael eu cofnodi ar y pecynnau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd.

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân, yn daclus, ac wedi eu dodrefnu i safon uchel. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio.

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r offer wedi cael eu gwirio'n rheolaidd, yn unol â'r safonau a amlinellir gan y Cyngor

¹ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

² Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy ofodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

Dadebru (DU),³ i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai eu hangen.

Roedd gan staff fynediad hawdd at gyfres o siartiau llif a oedd yn nodi'r camau y dylid eu cymryd, a'r cyffuriau i'w defnyddio, pe bai argyfwng gyda chlaf. Gwelsom gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi diweddarau eu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd. Ar gyfer y staff hynny nad oedd ganddynt dystysgrifau hyfforddi cyfredol ar gael i'w harchwilio, dylai'r practis gadarnhau bod eu hyfforddiant wedi cael ei ddiweddarau, a chaffael copiâu o dystysgrifau hyfforddi i ddangos hyn. Lle nad yw hyfforddiant wedi cael ei ddiweddarau, rhaid gwneud trefniadau i roi sylw i'r mater hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod hyfforddiant cardio-pwlmonaidd staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi cael ei ddiweddarau.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod yr holl ddogfennau a gwybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Cadarnhaodd rheolwr y clinig fod y staff clinigol perthnasol wedi diweddarau eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y tystysgrifau hyfforddi a welsom yn dangos hyn. Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddu pelydrau-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Cadarnhaodd rheolwr y clinig fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion, a gwelsom sampl o dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos hyn. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn disgwyl i staff clinigol fynychu hyfforddiant ar ddiogelu er mwyn parhau i fodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Rhaid i'r practis, felly, wneud trefniadau i sicrhau bod y

³ [Mae'r Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

staff hynny nad oeddent wedi gwneud hynny eisoes yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod staff yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion. Rhaid i dystiolaeth o hyfforddiant fod ar gael i'w harchwilio gan AGIC.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon a oedd yn ymwneud â gwaith wrth staff uwch y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

Gofal effeithiol

Gwelsom fod tîm y practis yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Roedd gan y practis systemau ar waith i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol i nodi meysydd i'w gwella a gwiriadau o offer i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Gwnaethom ystyried sampl o 19 o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y sampl hon yn ystyried cofnodion a wnaed gan ddeintyddion gwahanol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd cofnodion cleifion mewn fformat electronig. Roedd y nodiadau a wnaed yn ddigon manwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion. Gwnaethom argymhell bod y cofnodion yn dangos yn benodol bod sgrinio am ganser wedi cael ei esbonio. Cyn diwedd ein harolygiad, roedd y practis wedi diweddarau'r system nodiadau electronig i sicrhau y gwneir hyn wrth gwblhau nodiadau o hyn ymlaen.

Yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd y rhesymau dros gynnal y sganiau pelydr-X a'r hyn a ganfuwyd gan y deintyddion wedi cael eu cofnodi.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Dangoswyd strwythur rheoli ac iddo linellau eglur o adrodd ac atebolrwydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff uwch y practis a'r tîm ehangach. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.

Dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod copïau o dystysgrifau hyfforddi ar gyfer yr holl staff clinigol ar gael i'w harchwilio gan AGIC.

Rhaid i ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis ddiweddarau eu tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae Clinig Preifat Parkway yn cynnwys ysbyty deintyddol annibynnol a phractis deintyddol preifat a adwaenir fel Parkway Cosmetic and Dental Spa. Roedd staff yn gweithio i ddwy adran y clinig. Roedd ein harolygiad yn ystyried y gwasanaeth a ddarperir yn y practis deintyddol preifat yn unig.

Roedd rheolwr yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd. Roedd y rheolwr yn cael ei gynorthwyo gan ddirprwy, a oedd yn bennaf yn gyfrifol am y practis deintyddol preifat. Cafodd llinellau eglur o adrodd ac atebolrwydd eu disgrifio a'u dangos gan y tîm rheoli. Pan wnaethom ddangos meysydd i'w gwella, roedd y tîm rheoli'n dangos bodlonrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Yn ystod sgrysiâu â'r staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelwyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi gan staff uwch ac aelodau eraill tîm y practis. Gwelsom hefyd fod y staff yn glir ac yn wybodus ynghylch eu gwahanol gyfrifoldebau. Dywedodd staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod cyfathrebu ymhlith tîm y practis yn effeithiol.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i gwblhau hyfforddiant. Er bod tystysgrifau hyfforddi ar gael ar gyfer rhai staff, dylai'r practis wneud trefniadau i gadw copïau o dystysgrifau hyfforddi ar gyfer yr holl staff clinigol, i ddangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar y testunau hynny a 'argymhellir yn gryf' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis wneud trefniadau i gadw copïau o dystysgrifau hyfforddi ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, i ddangos eu bod

wedi cwblhau'r hyfforddiant ar y testunau hynny a 'argymhellir yn gryf' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer ac roedd ganddynt yswiriant indemniad ar waith.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael trwy'r bwrdd iechyd lleol.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC yn cael eu harddangos yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Fodd bynnag, roedd un dystysgrif yn llungopi, ac roedd angen diweddarau un arall i gynnwys cyfeiriad cywir AGIC. Gwnaethom hysbysu'r tîm rheoli am ein canfyddiadau, a gwnaethant gytuno i hysbysu'r deintyddion er mwyn iddynt arddangos y dystysgrif wreiddiol a gofyn am dystysgrif ddiwygiedig gan AGIC.

Nid oedd tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer yr holl ddeintyddion a oedd yn gweithio yn y practis. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, mae'n ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chyflwyno o fewn y tair blynedd flaenorol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis, sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat, feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio ar gais.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y practis deintyddol preifat yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁴ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁵ Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Parkway Cosmetic and Dental Spa

Dyddiad yr arolygiad: 25 Gorffennaf 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
7	Rhaid i wefan y practis gynnwys gweithdrefn gwyno'r practis a manylion cyswllt y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol. Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Canllawiau Hysbysebu	Rheoliad 15	Bydd gwefan newydd Clinig Parkway yn cael ei chwblhau o fewn yr wythnosau nesaf. Bydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen am y gweithdrefnau cwyno a manylion cyswllt y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.	Siân Majoe	Tri mis
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
8	Mae angen i asesiadau risg ysgrifenedig gynnwys manylion lleol er mwyn eu gwneud yn fwy penodol	Rheoliad 14(2)	Ar hyn o bryd, mae'r asesiadau risg a nodwyd yn ystod ein harolygiad wrthi'n cael eu gwneud yn fwy	Siân Majoe	Tri mis

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	i'r practis.		penodol i'r clinig.		
10	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod hyfforddiant cardio-pwlmonaidd staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi cael ei ddiweddarau.</p> <p>Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Proffesiynol Deintyddol (tudalen 14)</p>	Rheoliad 14(1)(d), 14(2)	<p>Mae'r ddau lawfeddyg ymgynghorol y wyneb a'r genau mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â nhw wedi eu cymhwyso'n feddygol yn ogystal ag yn ddeintyddol. Ar hyn o bryd, maent yn chwilio am gyrsiau perthnasol i ymrestru arnynt.</p> <p>Mae'r clinig wedi bod yn cynnal cyrsiau mewnol ar gynnal bywyd brys/dadebru ar gyfer ei staff ers 1997.</p>	Siân Majoe	Tri mis
10	<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod staff yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion. Rhaid i dystiolaeth o hyfforddiant fod ar gael i'w harchwilio gan AGIC.</p> <p>Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Proffesiynol Deintyddol (tudalen 15)</p>	Rheoliad 14(2)	<p>Mae'r ddau lawfeddyg ymgynghorol y wyneb a'r genau mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â nhw wedi eu cymhwyso'n feddygol yn ogystal ag yn ddeintyddol. Ar hyn o bryd, maent yn chwilio am gyrsiau perthnasol i ymrestru arnynt.</p> <p>Mae'r clinig wedi bod yn cynnal cyrsiau mewnol ar amddiffyn plant ac amddiffyn/diogelu oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer ei staff ers 1997.</p>	Siân Majoe	Tri mis

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
12	<p>Dylai'r practis wneud trefniadau i gadw copïau o dystysgrifau hyfforddi ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, i ddangos eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant ar y testunau hynny a 'argymhellir yn gryf' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p> <p>Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Proffesiynol Deintyddol (tudalen 14–15)</p>	Rheoliad 14(2)	<p>Mae'r gwelliant hwn yn gysylltiedig â'r ddau ateb blaenorol. Mae'r bobl o dan sylw wrthi'n ymrestru i gwblhau'r cyrsiau angenrheidiol. Mae'r cofnodion hyfforddi a'r tystysgrifau ar gyfer y dros 30 aelod arall o staff mewn ffeiliau a gedwir yng nghofnodion hyfforddi a ffeiliau personél y clinig.</p>	Siân Majoe	Tri mis
13	<p>Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis, sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat, feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio.</p>	Rheoliad 13(3)(c), Atodlen 2	<p>Nid oedd y clinig yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng rheoliadau ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio yn y practis preifat, a'r rhai a oedd yn gweithio yn yr ysbyty preifat. Bellach mae cais wedi'i wneud am yr holl dystysgrifau newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p>	Siân Majoe	Un mis

Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras): **Siân Majoe**

Teitl: **Rheolwr y Clinig**

Dyddiad: **08/09/16**